3 Gorffennaf: **Holi Cyn-gyfarwyddwr Europol ar ddiogelwch ar ôl Brexit. Trawsgrifiad. Tystiolaeth ysgrifenedig gan David Davis.**

3 Gorffennaf: Ymchwiliad i bolisi mudo ar ôl Brexit - **tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Ymgyrch dros Wyddoniaeth a Pheirianneg.**

10 Gorffennaf: **Holi'r Ysgrifennydd Cartref ar bolisïau ar ôl Brexit. Trawsgrifiad**.

10 Gorffennaf: Ymchwiliad i bolisi mudo ar ôl Brexit - tystiolaeth ysgrifenedig: **Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain; Cymdeithas y Grwpiau Deintyddol; Migration Watch UK; Yr Athro Syr David Metcalf CBE; Cyfreithwyr Downs; Thomas Shelton.**

24 Gorffennaf: **Negodwyr Brexit yn peryglu diogelwch y cyhoedd heb angen** - Adroddiad: **Cydweithrediad rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar ddiogelwch ar ôl Brexit: Adroddiad dilynol.**

31 Gorffennaf: **Dylai'r Llywodraeth adeiladu consensws ar fudo a chymryd rhan mewn trafodaeth agored** - Adroddiad: **Opsiynau polisi ar gyfer mudo y o Ardal Economaidd Ewrop yn y dyfodol: Adroddiad interim.**

## Masnach Ryngwladol:

4 Gorffennaf: **Archwilio goblygiadau trefniadau ffiniau Iwerddon ar gyfer polisi masnach yn y dyfodol . Trawsgrifiad.**

4 Gorffennaf: Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad i bolisi buddsoddi'r DU - **techUK; Dr Ashley Thomas Lenihan; Sefydliad y Cyfarwyddwyr.**

4 Gorffennaf: Tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad i Fasnach a'r Gymanwlad: gwledydd datblygol - **Grŵp Diwydiannau Siwgr Gwledydd Affricanaidd Caribïaidd a Phasiffig / Gwledydd Lleiaf Datblygedig.**

5 Gorffennaf: **Awdurdod Rhwymedïau Masnach y DU: Ymateb y Llywodraeth i Drydydd Adroddiad y Pwyllgor.**

11 Gorffennaf: Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad i Dryloywder Polisi Masnach y DU ac i Graffu Arno - **Yr Athro Elaine Fahey; Siambr Fasnach Ryngwladol y DU.**

11 Gorffennaf: **Y Pwyllgor yn holi Liam Fox. Trawsgrifiad.**

16 Gorffennaf: **Llythyr ar y cyd gan Gadeiryddion Pwyllgorau'r Trysorlys a Masnach Ryngwladol.**

19 Gorffennaf: **Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol ynghylch rhestr nwyddau'r DU i'r Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach.**

20 Gorffennaf: **Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol ynglŷn â'r cynnig arfaethedig gan y DU ar gyfer mynediad at farchnadoedd trwy'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA).**

4 Medi: **Holi'r Gweinidog am fasnach gyda gwledydd datblygol. Trawsgrifiad.**

7 Medi: **Lansio ymchwiliad i effaith trefniadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar bolisi masnach ehangach y DU.**

10 Medi: **Cysylltiadau masnach rhwng y DU a'r Unol Daleithiau: cyhoeddi Ymateb y Llywodraeth.**

12 Medi: **Archwilio effaith trefniadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar bolisi masnach ehangach.**

## Cyswllt:

2 Gorffennaf: **Llythyr at y Prif Weinidog ynghylch egluro pwyntiau a wnaed yn ystod y sesiwn Pwyllgor ddiwethaf.**

17 Gorffennaf: **Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog at y Cadeirydd gyda thystiolaeth atodol ynglŷn â Sesiwn mis Mawrth.**

18 Gorffennaf: **Rhoddodd y Prif Weinidog dystiolaeth. Trawsgrifiad.**

## Gogledd Iwerddon:

4 Gorffennaf: **Holi'r Ysgrifennydd Gwladol ar waith Swyddfa Gogledd Iwerddon. Trawsgrifiad.**

4 Gorffennaf: **Gohebiaeth oddi wrth George Eustice a oedd yn ymwneud ag ymchwiliad y Pwyllgor i Brexit a Gogledd Iwerddon: Pysgodfeydd.**

11 Gorffennaf: Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad Amaethyddiaeth gan **Fforwm Garddwriaeth Gogledd Iwerddon.**

16 Gorffennaf: Sesiwn Dystiolaeth yn Stormont ar Brexit a Gogledd Iwerddon: Amaethyddiaeth. **Trawsgrifiad.**

18 Gorffennaf: Sesiwn Dystiolaeth gyda George Eustace ar Brexit a Gogledd Iwerddon: Amaethyddiaeth. **Trawsgrifiad.**

18 Gorffennaf: **Gwyliwch gyfweliadau gyda physgotwyr Gogledd Iwerddon am Brexit.**

18 Gorffennaf: Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad Amaethyddiaeth gan **Yr Athro Joseph McMahon.**

24 Gorffennaf: **Gohebiaeth a oedd yn ymwneud ag ymchwiliad y Pwyllgor i'r ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon.**

## Gweithdrefn:

9 Gorffennaf: **ASau yn nodi sut y dylai pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin graffu ar ddeddfwriaeth Brexit** - Adroddiad: **Craffu ar ddeddfwriaeth ddirprwyedig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.**

## Cyfrifon Cyhoeddus:

19 Gorffennaf: **Mae'n rhaid i'r Llywodraeth 'fod yn agored' ynglŷn â heriau cludiant Brexit** - Adroddiad: **Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Gweithredu Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd: Yr Adran Drafnidiaeth.**

12 Medi: **Brexit: Amser yn rhedeg allan i Defra ac adrannau eraill** - Adroddiad: **Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Cynnydd wrth Weithredu'r Ymadawiad â'r UE.**

## Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol:

10 Gorffennaf: **Llythyr gan Lucy Smith AS ynglŷn â gwaith y Gwasanaeth Sifil ar Ddatganoli a Brexit.**

31 Gorffennaf: **Mae angen polisi datganoli clir ar gyfer yr Undeb ar ôl Brexit i adeiladu perthynas gref yn y DU -** Adroddiad: **Datganoli ac Ymadael â'r UE: cysoni gwahaniaethau a meithrin perthynas gref.**

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg:

16 Gorffennaf: Adroddiad: **System fewnfudo sy'n gweithio i wyddoniaeth ac arloesi.**

## Materion yr Alban:

3 Gorffennaf: **Archwilio pwysigrwydd dynodiadau daearyddol gwarchodedig ar gyfer masnach yr Alban. Trawsgrifiad.**

3 Gorffennaf: Yr Alban a Brexit: Ymchwiliad i Fuddsoddi Masnach a Thramor: Tystiolaeth ysgrifenedig: **Llywodraeth yr Alban; Prifysgolion yr Alban.**

11 Gorffennaf: **Erfyn ar y Llywodraeth i ystyried effaith targed mudo ar dwf yr Alban** - Adroddiad: **Mewnfudo a'r Alban.**

18 Gorffennaf: Yr Alban a Brexit: Ymchwiliad i Fuddsoddi Masnach a Thramor: Tystiolaeth ysgrifenedig: **Cymdeithas Scotch Whisky; CBI Scotland; NFU Scotland; City of London Corporation.**

30 Awst: **Llythyr oddi wrth Michael Russell ASA: Rôl yr Alban wrth Ddatblygu Trefniadau Masnach y DU yn y Dyfodol - Papur Trafod.**

### Y Trysorlys:

23 Awst: **Gohebiaeth gyda Changhellor y Trysorlys a oed yn ymwneud â dadansoddiad Brexit.**

### Y Pwyllgor Materion Cymreig:

9 Gorffennaf: **Rhaid i'r Llywodraeth gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru ar ôl Brexit -** Adroddiad: **Brexit: blaenoriaethau ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru.**

12 Gorffennaf: **Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau ar Gronfa Gymdeithasol Ewrop.**

16 Gorffennaf: Ymchwiliad newydd: **Galw am sylwadau ar oblygiadau'r trefniadau masnach ar ôl Brexit i Gymru.**

4 Medi: Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad i Brexit, masnach a thollau: y goblygiadau i Gymru: **Cyngor Sir Penfro; Porthladd Aberdaugleddau; Undeb Amaethwyr Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Y Gymdeithas Cludo Nwyddau; NFU Cymru.**

4 Medi: **Holi Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Trawsgrifiad.**

## Tŷ'r Arglwyddi

4 Gorffennaf: Cwestiynau ar **Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd.**

4 Gorffennaf: Datganiad a dadl ar **Bysgodfeydd Cynaliadwy ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.**

4 Gorffennaf: Y **Bil Trwyddedau Cludo a Chofrestru Trelars [HL]** - ystyried gwelliannau Tŷ'r Cyffredin.

5 Gorffennaf: Cwestiynau ar **Y GIG: Risgiau sy'n ymwneud â Brexit.**

9 Gorffennaf: Cwestiynau ar **Brexit: Trafodaethau'r Comisiwn Ewropeaidd.**

9 Gorffennaf: Cwestiynau ar **Brexit: Canolfannau'r Cyfryngau.**

9 Gorffennaf: Datganiad a dadl ar **Ymadael â'r UE.**

12 Gorffennaf: Datganiad a dadl ar **Ymadael â'r UE: Papur Gwyn ar y Berthynas yn y Dyfodol.**

16 Gorffennaf Datganiad a dadl ar **Uwchgynhadledd NATO ym Mrwsel 2018.**

17 Gorffennaf: **Darlleniad Cyntaf y Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol).**

17 Gorffennaf: Datganiad a chwestiynau ar y **Comisiwn Etholiadol.**

18 Gorffennaf: Darlleniad cyntaf y **Bil Masnach.**

19 Gorffennaf: Dadl ar **Refferenda: Democratiaeth Seneddol.**

19 Gorffennaf: Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r **Ddeddf Trwyddedau Cludo a Chofrestru Trelars.**

20 Gorffennaf: Ail ddarlleniad y **Mesur yr Undeb Ewropeaidd (Gwybodaeth, ac ati).**

23 Gorffennaf: **Dadl ar Brexit: Paratoadau a Thrafodaethau.**

24 Gorffennaf: Cwestiynau ar **Brexit: Prosesau Seneddol.**

24 Gorffennaf: Cynnig i gymeradwyo'r **Rheoliadau Mewnfudo (Darparu Data Ffisegol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** - cytunwyd.

24 Gorffennaf: Datganiad ar **Brexit: Deddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael.**

4 Medi: Cwestiynau ar **Brexit: Rheoliadau Safonau Bwyd.**

4 Medi: **Datganiad ar Brexit: Trafodaethau a Chynllunio Wrth Gefn ar gyfer Gadael Heb Gytundeb.**

6 Medi: Cwestiynau ar **Brexit: Trafodaethau.**

10 Medi: Cwestiynau ar **y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Pleidleiswyr Ifanc.**

11 Medi: Cwestiynau ar **Brexit: Setliad Ariannol.**

11 Medi: Cwestiynau ar **Brexit: Dim Cytundeb.**

11 Medi: Cwestiynau ar **Brexit: Europol.**

11 Medi: Ail ddarlleniad y **Bil Masnach.**

## Pwyllgorau

### Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol:

24 Gorffennaf: 32ain Adroddiad - **Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol): Ymateb y Llywodraeth.**

12 Medi: 33ain Adroddiad - **Bil Masnach.**

### Pwyllgor Dethol yr Undeb Ewropeaidd:

17 Gorffennaf: **Michel Barnier yn trafod y trafodaethau Brexit gyda Phwyllgor yr UE ym Mrwsel. Trawsgrifiad.**

24 Gorffennaf: **Pwyllgorau'r UE yn gofyn i'r llywodraeth am graffu ar ddogfennau yn ystod y cyfnod pontio ar ôl ymadael - Llythyr oddi wrth yr Arglwydd Boswell a Bill Cash.**

25 Gorffennaf: **Fframwaith Ariannol Aml-flwydd - Y Pwyllgor yn ysgrifennu at Drysorlys EM - Llythyr.**

9 Awst: **Ymateb y Llywodraeth ar y berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit.**

29 Awst: **Holi Dominic Raab am gynnydd trafodaethau Brexit. Trawsgrifiad.**

5 Medi: **Llythyr at Dominic Raab yn dilyn y Sesiwn Dystiolaeth.**

5 Medi: **Llythyr at Dominic Raab parthed paratoadau ar gyfer gadael heb gytundeb.**

## Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd:

20 Mehefin: **Llythyr oddi wrth George Eustice parthed trefniadau pysgodfeydd ar ôl ymadael.**

4 Gorffennaf: **Y Pwyllgor yn ystyried sut y bydd penderfyniadau ar risgiau diogelwch bwyd yn cael eu gwneud ar ôl Brexit. Trawsgrifiad.**

4 Gorffennaf: Brexit: ymchwiliad i fioddiogelwch planhigion ac anifeiliaid, tystiolaeth ysgrifenedig: **Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Gwyddoniaeth Ddŵr;** ar 11 Gorffennaf: **Grŵp Gweithredu Cyfraith Amgylcheddol yn Rhwydwaith Amgylcheddol Iwerddon**.

8 Gorffennaf: **Ymateb y Llywodraeth i Brexit: prisiau ac argaeledd bwyd.**

11 Gorffennaf: **Archwilio parodrwydd y corff rheoleiddio ynni niwclear ar gyfer Brexit. Trawsgrifiad. Sylwadau dilynol wedi'u cyflwyno.**

11 Gorffennaf: Brexit: ymholiad i fioddiogelwch planhigion ac anifeiliaid - **Grŵp Gweithredu Cyfraith Amgylcheddol (ELIG) - Tystiolaeth Ysgrifenedig.**

18 Gorffennaf: **Therese Coffey yn methu â thawelu meddwl y Pwyllgor ynghylch reoleiddio cemegol ar ôl Brexit. Trawsgrifiad.**

18 Gorffennaf: **Pryderon sy'n dal i fodoli ynghylch paratoadau'r corff rheoleiddio ynni niwclear ar gyfer Brexit yn cael eu codi gan y pwyllgor - Llythyr at Richard Harrington ar fesurau diogelu niwclear ar ôl Brexit.**

24 Gorffennaf: **Y Pwyllgor yn gofyn am eglurder ynghylch penderfyniadau ynglŷn â diogelwch bwyd ar ôl Brexit - Llythyr at Steve Brine.**

16 Awst: **Llythyr gan Richard Harrington ar fesurau diogelu niwclear ar ôl Brexit**.

5 Medi: **Llythyr at Richard Harrington ar fesurau diogelu niwclear ar ôl Brexit**.

## Is-bwyllgor Materion Allanol yr Undeb Ewropeaidd:

16 Mai **Llythyr oddi wrth David Davis am gytundebau rhyngwladol yn y cyfnod gweithredu.**

3 Gorffennaf: **Llythyr oddi wrth George Eustice am Ddynodiadau Daearyddol.**

5 Gorffennaf: **Y Pwyllgor yn casglu tystiolaeth gan arbenigwyr ar drefniadau tollau ar ôl Brexit. Trawsgrifiad.**

19 Gorffennaf: **DexEU a Gweinidogion Trysorlys EM a swyddogion Cyllid a Thollau EM yn cael eu holi gan y Pwyllgor. Trawsgrifiad swyddogion. Trawsgrifiad y Gweinidogion.**

24 Gorffennaf: **Ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad Brexit: teithiau a gweithrediadau'r Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Cyffredin.**

## Is-bwyllgor Materion Ariannol yr Undeb Ewropeaidd:

19 Gorffennaf: **Archwiliwyd y berthynas â Banc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit.**

12 Medi: **Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn rhoi tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad i Fanc Buddsoddi Ewrop.**

## Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE:

4 Gorffennaf: Tystiolaeth ysgrifenedig ar y Cytundeb Diogelwch arfaethedig rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd: **yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol; Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.**

11 Gorffennaf: **Yr Arglwyddi'n annog y Llywodraeth a'r UE i newid eu meddylfryd ynglŷn â thrafodaethau diogelwch Brexit - Adroddiad: Brexit: y cytundeb diogelwch arfaethedig rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.**

18 Gorffennaf: **Arbenigwyr yn trafod optio i mewn gan y DU ar gyfer Cyfiawnder a Materion Cartref.**

26 Gorffennaf: **Angen eglurder ar symudiad pobl yn y sector diwylliannol ar ôl Brexit** - Adroddiad: **Brexit: symudiad pobl yn y sector diwylliannol.**

27 Gorffennaf: **Llythyr at y Gweinidog ar ryddid i symud ym myd chwaraeon.**

10 Awst: **Y Gweinidog Chwaraeon yn ymateb i lythyr ar symudiad pobl ar ôl Brexit.**

5 Medi: **Claude Moraes ASE yn rhoi tystiolaeth ar optio i mewn gan y DU yn ystod y cyfnod pontio.**

12 Medi: **Holi'r Gweinidog ar y Papur Gwyn ar Brexit a threfniadau diogelwch rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.**

## Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE:

28 Mehefin: Brexit: cwmnïau newydd a chwmnïau sydd wrthi'n tyfu. **Trawsgrifiad.**

3 Gorffennaf: **Llythyr at yr Arglwydd Callanan, y Gweinidog Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** - Brexit: masnachu mewn gwasanaethau anariannol.

5 Gorffennaf: **Y Gweinidog Busnesau Bach yn cael ei holi am Fusnesau Bach a Chanolig a chwmnïau newydd. Trawsgrifiad.**

12 Gorffennaf: Sesiwn dystiolaeth ar **Beth mae Brexit yn ei olygu i sector gofod y DU? Trawsgrifiad.**

17 Gorffennaf: **Llythyr oddi wrth yr Arglwydd Callanan, y Gweinidog Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** - Brexit: masnachu mewn gwasanaethau anariannol.

20 Gorffennaf: **Archwilio trefniadau trafnidiaeth rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol mewn ymchwiliad newydd.**

20 Gorffennaf: **Ymateb Llywodraeth Cymru** i'r Ymateb gan Lywodraeth y DU i Adroddiad Is-Bwyllgor Marchnad Mewnol yr UE Tŷ›r Arglwyddi ar Brexit: Cystadleuaeth a Chymorth Gwladwriaethol.

25 Gorffennaf: **Llythyr at Kelly Tolhurst, y Gweinidog dros Fusnesau Bach, Defnyddwyr a Chyfrifoldeb Corfforaethol, ar Brexit: Busnesau Bach a Chanolig, gan gynnwys cwmnïau newydd a chwmnïau sydd wrthi'n tyfu.**

1 Awst: **Llythyr oddi wrth Sam Gyimah AS, y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesi.**

13 Medi: **Sut fydd Brexit yn effeithio ar drefniadau trafnidiaeth rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol?.**

## Is-bwyllgor Cyfiawnder yr UE:

5 Gorffennaf: **Ymateb y Llywodraeth i: Datrys anghydfod a gorfodi ar ôl Brexit.**

17 Gorffennaf: **Y Pwyllgor yn holi'r Gweinidog am y trafodaethau ar gyfer cydweithrediad ym maes cyfiawnder sifil ôl-Brexit. Trawsgrifiad.**

## Cysylltiadau rhyngwladol:

4 Gorffennaf: **Beth mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn ei olygu wrth y term Prydain Fyd-eang? Trawsgrifiad.**

11 Gorffennaf: **A yw Llywodraeth a byddin y DU yn cymryd technolegau sy'n dod i'r amlwg o ddifrif?. Trawsgrifiad.**

5 Medi: **A yw Whitehall yn aros gyfuwch â byd sy'n newid yn gyflym?. Trawsgrifiad.**

12 Medi: **Cyn-Gyfarwyddwr GCHQ a'r cyn-Gynghorydd Diogelwch Cenedlaethol yn cael eu holi gan y Pwyllgor.**

## Cyswllt:

4 Gorffennaf: **Cynnal Trydydd Cyfarfod ar Ddeg y Grŵp Cyswllt Brexit Anffurfiol.**

## Gweithdrefn:

5 Gorffennaf: 5ed Adroddiad Sesiwn 2017-19 - **Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Nithio offerynnau negyddol arfaethedig gan y Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth.**

# Newyddion

2 Gorffennaf: **Diweddariad gan Sefydliad Masnach y Byd ar y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau # 10: Trafodaethau Mynediad** Sicrhaodd Prydain y partïon fod ei gynnig yn dyblygu ei ymrwymiadau presennol, fel y byddai lefel bresennol eu mynediad yn parhau. (Safbwyntiau ar Fasnach) **Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau** (Sefydliad Masnach y Byd)

2 Gorffennaf: **Tri chwarter cwmnïau mawr y DU yn ddiobaith ynglŷn â Brexit yn ôl arolwg newydd** (CNBC)

3 Gorffennaf: **Brexit: amser yn rhedeg allan ar gyfer atebion i gwestiynau cwmnïau am y byd go iawn - Brexit: yr atebion y mae eu hangen ar fusnesau**

(Siambrau Masnach Prydain)

3 Gorffennaf: **Corff deilliadau byd-eang yn ychwanegu llysoedd Iwerddon fel mesur 'diogelu at y dyfodol' yn wyneb Brexit** (Reuters)

3 Gorffennaf: **Brexit. "Nid yw geiriau'n ddigon" meddai RHA** (Y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar Lorïau)

4 Gorffennaf: **Pôl Piniwn: Busnesau'r DU yn gwrthod cynllun tollau cefnogwyr Brexit** (Politico)

5 Gorffennaf: **Bydd materion o ran y cyflenwad bwyd os ceir Brexit sy'n mynd â ni dros ymyl y dibyn** (Consortiwm Manwerthu Prydain)

5 Gorffennaf: **Mark Carney, llywodraethwr Banc Lloegr, yn obeithiol ynglŷn â thwf y DU** (BBC)

8 Gorffennaf: **Fe allai Brexit caled orfodi Philips, y cwmni electroneg o'r Iseldiroedd, i adael y DU** (Guardian)

10 Gorffennaf: **Rheoleiddiwr diwydiant hedfan Prydain yn mynd ati i gynllunio ar gyfer Brexit anhrefnus (**Reuters)

10 Gorffennaf: **Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Refferenda** (Coleg Prifysgol Llundain)

12 Gorffennaf: **Bydd cynllun gwasanaethau Brexit yn cyflymu'r broses o adleoli, meddai rheolwr Lloyd's** (BBC)

12 Gorffennaf: **Brexit: Melltith y Caribî** – Mae tiriogaeth dramor Prydain yn Anguilla yn erbyn Brexit. Mae trigolion, na allent bleidleisio yn y refferendwm, yn ofni y byddant yn cael eu taro'n galed gan rwystrau masnach i diriogaethau cyfagos yr Undeb Ewropeaidd. Nawr, mae'r ynys yn y Caribî yn ystyried gadael y DU (Deutsche Welle)

16 Gorffennaf: **Adroddiad Chwarterol ar Ystadegau Mudo: Gorffennaf 2018** (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

17 Gorffennaf: **Adroddiad ar gynaliadwyedd cyllidol** (Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol)

17 Gorffennaf: **AstraZeneca i bentyrru cyffuriau yn barod ar gyfer Brexit** (BBC)

17 Gorffennaf: **Y cwmni llaeth mwyaf ym Mhrydain yn rhybuddio ynghylch "cyfyng-gyngor yn y diwydiant llaeth" o ddewisiadau amhosibl ar ôl Brexit** (Arla Foods)

17 Gorffennaf: **Nid yw'r Papur Gwyn ar Brexit yn mynd yn ddigon pell yn ôl RHA** (Y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar Lorïau)

21 Gorffennaf: **Un o swyddogion uchaf Llywodraeth Japan yn rhoi rhybudd drwgargoelus i Lywodraeth Theresa May, gan ddweud y byddai Brexit heb gytundeb yn 'amhosibl i ni ei dderbyn'** (This is Money)

24 Gorffennaf: **Brexit: Beth fydd yn digwydd os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb?** (Independent)

24 Gorffennaf: **Bydd Brexit heb gytundeb yn ei gwneud yn 'anghyfreithlon' talu pensiynau i alltudion wedi ymddeol o Brydain sy'n byw yn yr UE, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrth ASau** (Annibynnol)

24 Gorffennaf: **Trafodaeth Gyntaf y DU ar Fasnach Ryngwladol - Amaethyddiaeth yn Sefydliad Masnach y Byd** - Cwotâu Cyfradd Tariff (TRQ) a Brexit (Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Economi Wleidyddol Ryngwladol)

24 Gorffennaf: **Brexit: Michael Gove yn credu bod masnach fwyd heb dariffau [gyda'r UE] yn 'debygol'** (BBC)

24 Gorffennaf: **Y Deyrnas Unedig yn cyflwyno rhestr ddrafft i Sefydliad Masnach y Byd yn amlinellu ymrwymiadau o ran nwyddau ar ôl Brexit** (Sefydliad Masnach y Byd)

27 Gorffennaf: **Nid yw deddfwriaeth Trwyddedau Cludo yn gynllun wrth gefn os ceir Brexit heb gytundeb** (Y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar Lorïau)

28 Gorffennaf: **Pennaeth morgludiant yn rhagweld tair blynedd o anhrefn yn achos Brexit heb gytundeb** (The Scotsman)

29 Gorffennaf: **Nawr mae prif gwmnïau America yn rhybuddio buddsoddwyr ynghylch Brexit: Panig yn croesi'r Iwerydd wrth i gwmnïau, gan gynnwys Ford, Nike a FedEx leisio'u barn** (This is Money)

29 Gorffennaf: **Brexit a'r diwydiant cludo nwyddau ar lorïau yn y DU - dim cytundeb, dim swyddi, dim bwyd** (Y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar Lorïau)

30 Gorffennaf: **Brexit: Deutsche Bank yn symud hanner y busnes clirio Ewro o Lundain i Frankfurt** (Independent)

31 Gorffennaf: **Nid yw Brexit heb gytundeb yn opsiwn, dyna'r rhybudd gan ddiwydiant ceir Prydain** (Reuters)

31 Gorffennaf: **Cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer Brexit heb gytundeb wedi cael eu colli ar draffordd yr M20** (Sky News)

31 Gorffennaf: **Datgeliad: Prif Weithredwr Ffederasiwn Bwyd a Diod Prydain yn galw am gyfarfodydd argyfwng gyda'r Llywodraeth dros Brexit** (Independent)

31 Gorffennaf: **Ydych chi'n cymryd cyffur ar bresgripsiwn? Dyma sut y gallai Brexit eich rhoi mewn perygl** - Ash Soni, llywydd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, yn y Guardian.

1 Awst: **Gwneuthurwyr cyffuriau Sanofi a Novartis yn pentyrru cynnyrch yn barod ar gyfer Brexit** (BBC)

1 Awst: Yma yn unig: **Cynghorau'n paratoi am aflonyddu cymdeithasol yn sgîl Brexit** (Sky News) - gwiriwch am rifyn diweddarach.

3 Awst: **Carney: Y risg o Brexit heb gytundeb yn 'anghysurus o fawr'** (BBC)

2 Medi: **Prydain yn colli contractau meddyginiaethau wrth i un o gyrff yr UE**

**ragweld effaith Brexit** – Yr Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd yn rhoi terfyn ar waith gwerthuso fferyllol ac yn symud contractau i aelodau eraill y bloc (Guardian)

5 Medi: **Fe oroesais ghetto Warsaw. Dyma'r gwersi yr hoffwn eu trosglwyddo** - (Stanisław Aronson yn y Guardian)

6 Medi: **Mae perygl bod y rhai sy'n trafod telerau Brexit yn 'cerdded yn eu cwsg i mewn i argyfwng' - Ivan Rogers -** Cyn-lysgennad y DU i'r UE yn defnyddio araith yn Nulyn i annog arweinwyr i symud y tu hwnt i ymagwedd dechnocrataidd at sgyrsiau ynglŷn â Brexit (Guardian)

# Yr Alban

## Senedd yr Alban

Yr wybodaeth ddiweddaraf am Brexit gan Senedd yr Alban: **5 Gorffennaf**; **26 Gorffennaf**.

11 Gorffennaf - 4 Medi: Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban: **Y dyfodol ar gyfer pysgod - materion ym Mhapur Gwyn y DU Pysgodfeydd Cynaliadwy ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol; Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb; Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb: Bancio, yswiriant a gwasanaethau ariannol eraill; Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb: Polisi Amaethyddol a Chyllid; Brexit: Hawliau Dinasyddion.**

5 Medi: Cymerodd y Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad **dystiolaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar y Bil Masnach.** Cynhaliwyd sesiwn debyg gan y **Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith.**

## Llywodraeth yr Alban

5 Gorffennaf: **Trafodaethau'r UE - Gweinidogion yr Alban a Chymru yn amlinellu pryderon ynghylch y Papur Gwyn.**

5 Gorffennaf: **Safbwynt yr Alban o ran y berthynas â'r UE -** Cyfraniad at y Papur Gwyn ar Brexit.

7 Gorffennaf: **Enwau bwyd gwarchodedig dan fygythiad -** Pryderon yn cael eu codi ynghylch cytundebau masnach yn y dyfodol.

9 Gorffennaf: **Gwerthfawrogi staff gofal yr UE -** Mae bron i 10,000 o weithwyr yn yr Alban yn wynebu dyfodol aneglur.

12 Gorffennaf: **Y Papur Gwyn ar Brexit** - Ysgrifennydd Materion Allanol: "Mae cynlluniau'r DU yn methu'r nod ac yn niweidio'r economi."

15 Gorffennaf: **Cynllun anheddiad yr UE** - Llythyr at yr Ysgrifennydd Cartref.

25 Gorffennaf: **Galw am ddatganoli mudo** - Ffigurau noeth yn dangos effaith Brexit ar y gweithlu addysg.

1 Awst: **Nid yw Gweinidogion Torïaidd yn deall datganoli, ac mae ganddynt lai byth o barch ato** (Michael Russell mewn datganiad i'r wasg gan yr SNP)

2 Awst: **Enwau bwyd gwarchodedig yr Alban dan fygythiad.**

6 Awst: **Gwarchod yr Alban wledig rhag effaith Brexit.**

23 Awst: **Risgiau Brexit heb gytundeb** - Hysbysiadau Technegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.

30 Awst: **Cryfhau llais yr Alban mewn cytundebau masnach.**

# Gogledd Iwerddon

Y Cynulliad yn cyhoeddi **newyddlen 'Brexit Brief' a gwybodaeth am Brexit.**

Mae gan Wasanaethau Ymchwil a Gwybodaeth y Cynulliad **Ganolbwynt Brexit** gyda gwybodaeth a dolenni i adnoddau sy'n ymwneud â Brexit a Gogledd Iwerddon.

1 Awst: **DAERA yn gofyn am farn ynglŷn â fframwaith polisi amaethyddol ar gyfer Gogledd Iwerddon yn y dyfodol.**

# Cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

4 Gorffennaf: **Cyngor Ewropeaidd: Datganiadau.**

11 Gorffennaf: Cwestiwn: **effaith debygol Brexit caled heb gytundeb ar economi Iwerddon ym mis Mawrth 2019.**

11 Gorffennaf: Cwestiynau: **Cyfarfodydd y Cyngor Ewropeaidd.**

11 Gorffennaf: Dadl: **Goblygiadau Brexit i Borthladdoedd Gwyddelig.**

12 Gorffennaf: **Gogledd Iwerddon a Brexit: Datganiadau.**

4 Gorffennaf: **Datganiad gan y Taoiseach yn dilyn y Cyngor Ewropeaidd.**

18 Gorffennaf: **Y Cabinet yn Cytuno ar Fesurau Parodrwydd ar gyfer Brexit.**

23 Gorffennaf: **An Taoiseach yn ymweld â phrifddinasoedd yr UE ar gyfer sgyrsiau Brexit.**

4 Gorffennaf: **Cyngor Ewropeaidd: Datganiadau.**

6 Medi: **Chwech o lysgenhadon yr UE yn rhannu eu meddyliau ynglŷn â sefyllfa Iwerddon a Brexit** (Irish Times)

# Adroddiadau a gyhoeddwyd

## Llyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin Thŷ'r Arglwyddi

**9 Gorffennaf: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: craffu ar is-ddeddfwriaeth (Atodlen 7).**

**23 Gorffennaf: Paratoadau a Thrafodaethau Brexit.**

**17 Gorffennaf: Y Berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y Dyfodol.**

**24 Gorffennaf: Mabwysiadu cytundebau allanol yr UE ar ôl Brexit.**

**31 Gorffennaf: Statws "Cyfraith yr UE a ddargedwir".**

**10 Medi: Beth os na fydd unrhyw gytundeb ynglŷn â Brexit?**

**7 Medi: Deddfu ar gyfer y cytundeb ymadael.**

## (The Conversation)

**Ble mae cynllun Brexit y DU (a'r Bil Tollau) yn gadael Gogledd Iwerddon.**

**Masnach ar ôl Brexit gyda'r Unol Daleithiau - roedd Donald Trump yn iawn pan ddywedodd y byddai cytundeb yn anodd.**

**Pam fod a wnelo Brexit mewn gwirionedd â gweledigaethau ar gyfer cyfalafiaeth sy'n cystadlu â'i gilydd.**

**Brexit: astudiaeth newydd yn awgrymu bod cyni cyllidol wedi troi'r fantol o blaid Gadael.**

**Brexit: gallai siampên, parmesan, prosecco a feta fod yn ganolog i'r trafodaethau cyn bod hir.**

**Brexit: ydynt, mae etholaethau wedi newid eu barn o blaid Aros, a dyma pam y gallai hynny fod o bwys.**

**Dim cytundeb? Saith rheswm pam y byddai Brexit sy'n cynnwys trefniant gyda Sefydliad Masnach y Byd yn unig yn ddrwg i Brydain.**

Ai cyni cyllidol a achosodd Brexit mewn gwirionedd? Dyma pam nad ydym wedi ein hargyhoeddi.

Brexit heb gytundeb: arbenigwyr yn trafod yr hyn y mae cyngor Llywodraeth y DU yn ei olygu.

(UK in a Changing Europe)

Pa fath o Brexit mae ar bleidleiswyr ei eisiau?

Papur gwyn y Llywodraeth ar bysgodfeydd: yr hyn y mae'n ei ddweud a'r hyn nad yw'n ei ddweud.

NATO, y DU a chydweithrediad ym maes diogelwch ar ôl Brexit.

Gallai cyni cyllidol fod wrth wraidd Brexit.

Cofiwch hyn: Nid Brexit yw blaenoriaeth yr Almaen.

Diogelwch cemegol: yr un peth y gall y rhan fwyaf o bobl gytuno arno wrth drafod Brexit.

Nid yw trafodaethau Brexit yn ymwneud ag ennill, ond yn hytrach â datrys problem.

Baneri ar fwyd? pam y ffws?

Brexit: Gwnaeth David Cameron fwy o niwed nag yr ydych yn ei feddwl hyd yn oed.

Beth yw barn y rhai a bleidleisiodd dros adael a'r rhai a bleidleisiodd o blaid aros ynglŷn â'r economi yng ngoleuni Brexit.

O'r diwedd, mae hysbysiadau technegol y llywodraeth yn tynnu sylw at helbulon Brexit heb gytundeb.

Rhaid i ni wneud popeth a allwn i sicrhau na cheir Brexit heb gytundeb – Bydd Brexit heb gytundeb yn hollol negyddol i'r DU, yn ôl canfyddiadau adroddiad academaidd newydd.

Tlodi ar ôl Brexit: dim difidend i'r rhai sydd ar incwm isel.

Cyfyng-gyngor diplomyddol Dulyn os ceir Brexit heb gytundeb.

**Beth fyddai Brexit heb gytundeb yn ei olygu i ddinasyddion yr UE yma, a dinasyddion Prydeinig yn Ewrop.**

(LSE Brexit)

**Erthygl hir: sut i ddefnyddio'r brêc brys i reoli mudo.**

**Bydd cytundeb Brexit y Prif Weinidog yn wynebu ei brawf mwyaf yn y Senedd - dyma rai offer iddi hi (a'i gwrthwynebwyr)**

**LSE Continental Breakfast 10: Brexit ac amlochrogrwydd.**

**Chwarae â thân: Brexit a dirywiad Cytundeb Gwener y Groglith.**

**Roedd dylanwad Prydain ym Mrwsel wedi bod yn llawer mwy nag a gydnabuwyd.**

**Eironi sefydliadol Brexit: sut y mae'r UE wedi llwyddo i fod yn fwy deheuig na'r DU.**

**Dinesydd byd Prydeinig, Ewropeaidd neu Saesneg? Sut mae Prydeinwyr yn meddwl amdanynt hwy eu hunain.**

**Llywyddiaeth Awstria ar yr UE: bydd Brexit yn eilbeth.**

**Sut mae dirywiad heddwch yn Ewrop yn hwyluso twf poblyddiaeth.**

**Mae rhyfel masnach fyd-eang yn un rheswm arall i'r DU flaenoriaethu ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol.**

**A all Brexit herio disgyrchiant? Mae'n dal i fod yn llawer rhatach i fasnachu â gwledydd cyfagos.**

**Continental Breakfast 11: gwleidyddiaeth fregus a pherthnasau masnachu.**

**Adlach diwylliannol: mae'r bwlch rhwng y cenedlaethau dros Brexit yn cael ei ysgogi gan werthoedd awdurdodol a phoblyddol.**

**Dim cytundeb, dim tryciau? Beth fydd Brexit heb gytundeb yn ei olygu i gludo nwyddau ar loriau.**

## Arall

**Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol** (Blogiau Brexit Caerdydd)

**Model ffermio ar ôl Brexit** (Blogiau Brexit Caerdydd)

**Brexit a'r cyfansoddiad tiriogaethol: déjà vu unwaith eto?** (Blogiau Brexit Caerdydd)

**Cyhoedd sy'n fwy 'gwybodus'? Effaith y ddadl Brexit** (John Curtice yn y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol)

**A fydd Brexit yn newid cyfansoddiad y DU?** (Cymdeithas Hansard)

**Papur safbwynt ar gynigion Horizon Europe** (Grŵp Russell)

**Nid oes cytundeb ynglŷn â Brexit byth** (Breugel)

**Dylai Ewrop osgoi Brexit heb gytundeb** (Breugel)

**Sut mae'r Llywodraeth yn cynllunio i liniaru'r effeithiau trafferthus os na cheir cytundeb** (Agored Ewrop)

**Y farn o Frwsel: Sut mae 27 gwlad yr UE yn paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb?** (Open Europe)

**13 Gorffennaf: Y cytundeb ymadael rhwng y DU a'r UE: Cynnydd hyd yma ac anawsterau sy'n dal i fodoli. Senedd Ewrop**



